



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813



LLAWLYFR Mentro

Cefnogi Mentrau ar y Cyd yng Nghymru



CEFNOGI MENTRAU AR Y CYD
SUPPORTING JOINT VENTURES



Fresh Start
LAND ENTERPRISE CENTRE
investing in the future

Rhagair



Professor E. Wynne Jones OBE FRAgS

Gall canfod ffordd i mewn i ffermio fod yn dasg anodd os nad ydych chi neu eich partner yn dod o gefndir ffermio, neu os nad yw'r busnes teuluol yn ddigon o faint i allu cefnogi newydd ddyfodiad. Mae'r cyfle hollbwysig hwnnw i ennill bywoliaeth o fewn busnes fferm deuluol ar hyn o bryd allan o afael nifer o ddarpar ffermwyr yng Nghymru, ond gallai Mentro, menter flaengar Cyswllt Ffermio, ddarparu'r ffordd ymlaen a chynnig ateb i nifer.

Nododd Malcolm Thomas yn ei adroddiad 'Denu Cenhedlaeth newydd o Ffermwyr' a gyhoeddwyd yn 2014 bwysigrwydd symudedd o fewn y diwydiant amaeth yng Nghymru er mwyn creu dyfodol gwydn, cynaliadwy a phroffesiynol i fusnesau fferm. Roedd un o argymhellion allweddol Mr Thomas yn ymdrin â'r angen i sefydlu Plattform Cyfleoedd ar y Cyd i gefnogi cyfleoedd busnes newydd.

Rwy'n falch bod Cyswllt Ffermio yn cyflawni'r awgrymiadau hynny gyda Mentro. Mae'n darparu cefnogaeth, arweiniad a'r cyfleoedd datblygu busnes a phersonol hollbwysig fydd yn gamau defnyddiol i'r rhai hynny sy'n chwilio am ffordd i mewn i ffermio yng Nghymru yn ogystal â ffermwyr a thirfeddianwyr sydd eisoes wedi sefydlu sy'n dymuno cymryd cam yn ôl.

Mae angen cyflenwad cyson o bobl newydd, syniadau newydd ac egni newydd ar bob diwydiant llewyrchus a gwydn er mwyn ffynnu. Dyma wasanaeth hynod o werthfawr a phwysig i'r diwydiant amaeth yng Nghymru ac rwy'n eich annog i wneud y defnydd gorau o'r pecyn cefnogaeth a gynigir er mwyn hybu eich nodau a'ch uchelgeisiau.

Professor E. Wynne Jones OBE FRAgS
Cadeirydd, Bwrdd Ymgynghorol Strategol Cyswllt Ffermio

Yn 2012, sefydlodd a chyhoeddodd Fresh Start Land Enterprise CIC (FSLEC) y Land Partnerships Approach a'u llawlyfr cysylltiedig: Land Partnership Handbook: Using land to unlock business innovation. Ar ei newydd wedd, mae ei neges a'i brosesau yr un fath ac mae'n cael ei gydnabod gan y diwydiant ffermio ehangach fel arweinydd yn y maes hwn. Mae FSLEC hefyd yn darparu gwasanaethau cefnogi megis academiâu busnes, mentora, hyfforddiant a gweithdai yn ogystal â rhedeg y Land Partnerships Service yn Lloegr www.freshstartlandenterprise.org.



Cynnwys

- 04 | Beth yw Rhaglen Mentro?
- 06 | Cam 1: Pwyso a mesur
- 10 | Cam 2: Dod o hyd i'r partner priodol
- 14 | Cam 3: Creu cytundeb cytbwys
- 18 | Cam 4: Dewis fframwaith cyfreithiol
- 24 | PAC a Brexit
- 26 | Cam 5: Meddwl hirdymor
- 30 | Astudiaeth Achos



Beth yw Rhaglen Mentro?

Ydych chi eisiau mentro i redeg eich busnes ffermio neu goedwigaeth eich hun yn y dyfodol?

Ydych chi eisiau arafu neu gymryd cam yn ôl o'r diwydiant?

Beth am ystyried Menter ar y Cyd?

Gall rhaglen newydd Mentro gyda Cyswllt Ffermio gynnig:

- Pecyn integredig o hyfforddiant, mentora, cefnogaeth fusnes a chynghor cyfreithiol arbenigol, wedi'i deilwra i'ch gofynion busnes a phersonol chi
- Dull i'ch paru â phartner busnes posibl
- Y sgiliau, yr arweiniad a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch i'ch helpu i gyflawni eich nodau

Y gromlin ddysgu

Pan fyddwch yn dechrau eich taith drwy'r rhaglen Mentro, efallai y byddwch yn chwilio am fwy o wybodaeth, cymorth i benderfynu ar eich trywydd ac arweiniad ynglŷn â'r opsiynau sydd ar gael.

- Dysgwch fwy drwy ddefnyddio'r adnoddau ar ein gwefan yn cynnwys taflenni gwybodaeth, fideos a blogiau gan ffermwyr sydd eisoes yn gweithredu mentrau llwyddiannus ar y cyd
- Cofrestrwch ar gyfer un o fodiwlau e-ddysgu Cyswllt Ffermio sydd wedi'u hariannu'n llawn neu opsiynau hyfforddi eraill i roi hwb i'ch sgiliau a'ch gwybodaeth
- Ymunwch â grŵp trafod Cyswllt Ffermio lle cewch gyfle i gyfarfod pobl eraill gydag

- amcanion busnes tebyg ac ehangu eich rhwydweithiau
- Gwnewch gais am yr Academi Amaeth, ein rhaglen ddatblygu personol blaengar

Cefnogaeth wedi'i theilwra

Erbyn hyn, byddwch yn barod i ddechrau Mentro a dechrau chwilio am eich partner busnes posibl.

Gallech ystyried manteisio ar rai o'r gwasanaethau canlynol:

- Byddwn yn eich helpu i greu eich proffil Mentro personol eich hun y gallir ei rannu â phartneriaid posibl
- Enwi partner mentro ar y cyd sy'n addas i chi
- Dewis un o'n mentoriaid personol cymeradwy i'ch cefnogi a'ch arwain drwy'r broses Menter ar y Cyd
- Ewch i gymhorthfa un i un lle cewch gyngor arbenigol
- Ystyriwch ymuno â grŵp Agrisgôp Cyswllt Ffermio lle gallwch fanteisio ar gefnogaeth gan unigolion o'r un meddylfryd sydd â nodau busnes tebyg

Ffurio Menter ar y Cyd

Os byddwch yn dod o hyd i bartner addas, gallwn hefyd eich

cefnogi drwy gamau olaf y siwrnai. Byddwn yn eich helpu i:

- Gael mynediad i Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio i ddatblygu cynllun busnes newydd ar y cyd wedi'i ariannu 100% hyd at uchafswm o €3,000 ar gyfer Menter newydd ar y Cyd
- Ymgeisiwch am gefnogaeth gyfreithiol arbenigol i sicrhau eich bod yn llunio cytundeb menter ar y cyd ffurfiol i bawb sy'n rhan ohoni



I gael mynediad at Mentro bydd rhaid cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Os nad ydych chi'n cyrraedd y meini prawf ar gyfer ymaelodi'n llawn ond yn dymuno sefydlu menter ffermio neu goedwigaeth newydd ac yn meddu ar y cymwysterau neu brofiad angenrheidiol gallwch gofrestru ar gyfer Mentro. Ewch i'n gwefan i lenwi ffurflen gofrestru neu ffoniwch ni ar 08456 000 813.

Ein dull

Mae'r llawlyfr hwn yn seiliedig ar bum cam sy'n cynnwys yr agweddau technegol a meithrin perthynas wrth greu trefniant busnes-i-fusnes cadarn. Datblygwyd y dull gan Fresh Start Land Enterprise yn Lloegr ac mae wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer ffermwyr Cymru sy'n cymryd rhan yn y Fenter. Mae pob cam yn pwysleisio elfen allweddol o'r dull, fel yn y diagram isod.

Cam 1: Pwyso a mesur

Gwneud asesiad clir o'r asedau sydd gennych, a beth hoffech ei gyflawni gyda nhw

Cam 2: Dod o hyd i'r partner priodol

Cael y cyfuniad priodol o dir, pobl, sgiliau ac amcanion

Cam 3: Creu cytundeb cytbwys

Darganfod sut i rannu risgiau a manteision mentrau newydd ar y cyd

Cam 4: Dewis fframwaith cyfreithiol

Mae'r rhan fwyaf o'r strwythurau cyfreithiol a busnes eisoes yn bodoli. Pwrpas hwn yw defnyddio dulliau sydd wedi bod yn llwyddiannus i greu canlyniadau newydd

Cam 5: Meddwl hirdymor

Bod yn barod ar gyfer newid – sy'n anrffod; creu opsiynau, gwneud y mwyaf o adnoddau, a meithrin perthnasoedd busnes a fydd yn para

Dylai partneriaid posibl mewn mentrau ar y cyd ddefnyddio'r llawlyfr fel sylfaen; i ystyried y posibiladau, helpu i edrych ar opsiynau a chyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chynghor manylach a mwy penodol.

Pwy sy'n ddarparwr posibl?

Ffermwyr sy'n dod at ddiwedd eu gyrfa, sy'n ystyried olyniaeth, yn bwriadu arafu a gwneud llai o'r gwaith ymarferol o redeg fferm, neu drosglwyddo profiad i genhedlaeth newydd.

Perchnogion tir newydd sydd eisiau gweld eu tir yn cael ei ddefnyddio'n ymarferol a phroffidiol, ond nad ydynt yn gallu ffermio'r tir eu hunain.

Ffermwyr gweithredol, gyda thir, sy'n dymuno arallgyfeirio eu busnes heb y risgiau a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â sefydlu a rhedeg nifer o fusnesau'r un pryd.

Perchnogion neu reolwyr ystadau sydd wedi canfod bwlch yn eu system ystâd.

Ymddiriedolaethau neu elusennau sy'n berchen tir sy'n awyddus i ddod o hyd i ffyrdd cost effeithiol o gyflawni eu hamcanion cymdeithasol neu amgylcheddol.

Pwy sy'n geisiwr posibl?

Ffermwyr ifanc, gyda'r hyfforddiant a'r profiad i sefydlu busnes ffermio newydd, ond heb y tir neu'r cyfalaf.

Gweithwyr fferm neu reolwyr tir profiadol, sydd wedi penderfynu cymryd y cam i redeg eu busnes eu hunain, ond sydd heb y cyfalaf i brynu tir.

Cam 1: Pwyso a mesur

Craffwch ar eich cymhelliant, eich asedau a'ch gofynion cyn chwilio am bartner.

Os ydych chi'n ddarparwr neu geisiwr, rhaid i'r fenter ar y cyd arwain at drefniant busnes realistig a hyfyw. Y nod yw creu gwerth drwy ddod ag asedau, sgiliau a dyheadau'r ddau bartner at ei gilydd. Y man cychwyn ar gyfer hyn yw gwybod yn bendant beth yw eich asedau, eich sgiliau a'ch dyheadau. Drwy bwysu a mesur cyn dechrau chwilio am bartner tir byddwch yn gallu:

- Cyfleu beth sydd gennych i'w gynnig, er mwyn gallu denu'r partneriaid mwyaf priodol
- Llunio set benodol o feini prawf chwilio er mwyn dewis y partner tir gorau i chi a'ch busnes
- Rhestru canlyniadau a pharamedrau clir a ddefnyddir fel sail i werthuso mentrau posibl.

Ein prif argymhellion er mwyn gwneud y gorau o'r broses pwyso a mesur hon yw:

1. Strwythuro eich meddwl

Credwn ei fod yn ddefnyddiol gwneud hyn o dan y tri phennawd canlynol:

Cymhelliant – beth ydych chi eisiau ei gael o'r fenter?
Asedau/Sgiliau – beth sydd gennych i'w gynnig?
Gofynion – beth sydd ei angen arnoch?

Mae'n hanfodol eich bod yn onest gyda chi eich hun wrth ystyried eich cymhelliant, eich asedau a'ch gofynion ar gyfer busnes er mwyn gosod sail gadarn i weithio arni. Byddwch yn bragmataidd yn eich dull.

2. Cymerwch amser

Ceisiwch osgoi'r atebion a'r casgliadau mwyaf amlwg. Gallai'r broses o adolygu eich busnes symbylu persbectif a syniadau

newydd. Gwnewch eich ymchwil, ac os yw'n bosibl, siaradwch gydag eraill sydd â dulliau tebyg i'r rhai y mae gennych ddiddordeb ynddynt.

3. Trafodwch

Beth yw barn eich teulu, cydweithwyr, asiant tir a chynghorwyr proffesiynol eraill? Os yw'n syniad newydd bydd angen yr holl ffeithiau arnynt i wneud cyfraniad gwerthfawr i'r drafodaeth.

4. Cydbwyso eglurder a dilyn cyfarwyddiadau'n rhy ddeddfol

Mae'n hanfodol gwybod yn glir am beth ydych yn chwilio, ond dylech fod yn agored i sut y gallech gyflawni eich amcanion. Trwy ddod yn bartner gyda busnes arall, un o fanteision Mentrau ar y Cyd yw ei bod yn bosibl darganfod atebion a chyfleoedd annisgwyl.

“O'r cychwyn, mae angen i bartneriaid ddweud beth yr hoffent ei gael o'r fenter i osgoi dryswch er mwyn i'r Ceisiwr a'r Darparwr gytuno ynghylch beth y maent eisiau ei gyflawni a phwy sy'n gyfrifol am beth.”

Mae angen i'r ddau bartner gyfathrebu'n rheolaidd i drafod problemau / llwyddiannau i osgoi unrhyw “bethau annisgwyl” allai ymddangos yn ddiweddarach a rhag anwybyddu problemau. Dylid cael amserlen ar gyfer y fenter ar y cyd er mwyn i'r ddau bartner gyflawni'r hyn yr hoffent ei gael o'r cytundeb yn ystod ei oes”

Aled Roberts, Uwch Gynghorydd, RSK ADAS



Aled Roberts



Gwnewch apwyntiad â **Chymhorthfa Adolygu Busnes Cyswllt Ffermio** i drefnu cyfarfod wedi'i ariannu'n llawn gydag ymgynghorydd busnes fferm.

Siaradwch â Mentor Cyswllt Ffermio a fydd yn gallu trafod gyda chi sut aethon nhw ati.

Ewch i Gymhorthfa Olyniaeth, eto wedi'i hariannu'n llawn gan Gyswllt Ffermio.

Meddwl am risg

Mae agweddau at risg, a chanfyddiadau risg, yn dylanwadu'n gryf ar wneud penderfyniadau. Yn gyffredinol, mae'n naturiol i ni gredu bod y gweithgareddau yr ydym yn gyfarwydd â hwy yn fwy diogel na phethau sy'n newydd. Ond mae unrhyw fusnes, boed wedi'i sefydlu ers tro neu'n fusnes newydd, yn agored i risg. Ac mewn cyfnod ansicr gallai mentro gyda rhywbeth newydd dalu ei ffordd yn hytrach na chadw at hen fodel busnes.

Felly mae'n bwysig asesu risg yn gwbl deg. Bydd rhai risgiau'n gyfarwydd – yn fewnol i'r busnes neu'n rhai y gellir eu rheoli, fel amrywiaeth incwm, cydymffurfio cyfreithiol neu hyd a lled y sylfaen cwsmeriaid. Bydd eraill yn allanol ac yn anodd eu rheoli, fel costau mewnbwn a nwyddau, neu'r tywydd. Bydd rhai'n anodd eu mesur, fel risgiau'n gysylltiedig â mentrau newydd, entrepreneuriaid ifanc neu gynlluniau heb eu profi. Ond nid yw hynny'n golygu nad ydynt yn werth rhoi cynnig arnynt.

Mae dull Mentro'n annog y ddau bartner i archwilio eu harchwaeth risg a chynllunio'n rhagweithiol ar gyfer ansicrwydd. Bydd datblygu busnesau newydd yn dod â risgiau newydd; ond gallai'r cyfle i arallgyfeirio, integreiddio systemau ac o bosibl, lleihau mewnbynnau oddi ar y fferm wrthbwysu eraill.

Cwestiynau i ofyn i chi'ch hun

	Os mai darparwr ydych chi	Os mai ceisiwr ydych chi
Cymhelliant	- Ai'r nod yw adeiladu busnes ffermio neu arafu o ran eich ymrwymiad? - Ydych chi'n chwilio am rywun i ddatblygu cyfle busnes penodol, ynteu ydych chi'n agored i awgrymiadau? - Ydi hyn yn rhan o weledigaeth ar gyfer y fferm gyfan neu'n ateb i un darn o dir? - Pa mor weithgar ai peidio ydych chi eisiau bod?	- Ai carreg gamu yw hon i rywbeth arall neu ydych chi'n gweld hwn fel ymrwymiad hirdymor? - Oes gennych chi weledigaeth benodol ar gyfer math o fferm neu fusnes? - Ydi hon yn ffordd o fyw, yn ffordd i newid y byd neu'n ffordd o wneud bywoliaeth yn unig? - Ydych chi'n anelu at fod yn annibynnol neu ydych chi eisiau perthynas fusnes agos?
Asedau/ Sgiliau	- Pa dir, adeiladau ac offer ydych chi eisiau eu cynnig? - Pa fuddiannau busnes eraill sydd gennych a allai ategu'r un newydd? - Pa farchnadoedd allwch chi roi mynediad iddynt? - Pa sgiliau a phrofiad ydych chi'n fodlon eu cynnig? - Oes unrhyw isadeiledd y bydd angen ei ddatblygu neu uwchraddio cyn y gallwch gynnig tir?	- Pa sgiliau newydd allwch chi eu cynnig i'r busnes newydd? Ydyn nhw'n gysylltiedig â ffermio'n unig neu ydyn nhw'n cynnwys manwerthu, marchnata, cyfathrebu neu ddatblygu busnes? - Oes gennych chi offer neu dda byw? - Faint o gyfalaf sydd gennych? - Beth yw eich syniad busnes? - Oes unrhyw sgiliau neu gynlluniau mae angen i chi eu datblygu cyn chwilio am fenter ar y cyd?
Gofynion	- Oes angen i'r busnes newydd gynnig gwasanaeth penodol (gwellt, tail, egni...)? - Oes meincnod ariannol y mae angen ei gyfateb? - Pa gyfyngiadau sydd gennych? Er enghraifft, gallai'r rhain fod yn gysylltiedig ag ymrwymadau cytundebol, grant neu faterion treth (gweler briffio Cyfreithiol ar dudalen 24), neu ddewisiadau personol.	- Oes raid i hyn gynnig cyflog byw i chi ac a oes angen tŷ arnoch? - Faint o dir/eiddo sydd ei angen arnoch i gychwyn? Ac yn ddiweddarach? - Pa isadeiledd fydd ei angen arnoch? - Oes gennych chi un syniad busnes penodol? - Ydi'r lleoliad yr ydych wedi'i ddewis yn hyblyg neu'n eithaf pendant os oes angen cynnwys ffactorau fel ymrwymadau teuluol?



Yr hyn a wnelo menter ar y cyd yw datgloi holl botensial asedau a phobl i gyflymu'r broses o gyflawni eu priod nodau. Gan gadw eu hannibyniaeth, mae mentrau ar y cyd yn caniatáu i gyfranogwyr:

- Weithio tuag at nod cyffredin
- Lliniaru effaith bosibl cyfnewidioldeb
- Gwneud y gorau o unrhyw gyfuniad o dir, adeiladau, stoc, llafur, peiriannau a chyllid
- Rhyddhau cyfalaf i'w ail-fuddsoddi
- Rhyddhau amser i'w dreulio ar bethau eraill
- Cadw fferm yn eich meddiant a sicrhau manteision treth

Mae'r enghreifftiau gorau o "Fentrau ar y Cyd" yn paru'r bobl a'r adnoddau priodol â'r math priodol o gytundeb.

Mark Wheeler, Cynghorydd Busnes Fferm, Promar International



Mark Wheeler

Cam 2: Dod o hyd i'r partner priodol

Mae cyfuniad priodol o dir, pobl, sgiliau a dyheadau'n sail i unrhyw drefniant o fenter ar y cyd.

Nod y cam hwn, i'r darparwr a'r ceisiwr, yw gwneud y mwyaf o'u cyfleoedd i ddenu'r partner tir gorau a mwyaf addas. I'r ddau bartner, mae hyn yn golygu cyflwyno eich sgiliau a'ch asedau yn y modd gorau posibl ac i'r math priodol o bobl; deall am beth mae eraill yn chwilio, ac yn y pen draw, gwneud dewis da o ran gyda phwy i weithio. Yn ymarferol mae hyn yn golygu dau beth:

1. Hysbysebu eich hun

Dylid gwneud hyn mewn ffordd strategol. Gall hysbysebu fod yn waith costus ac mae'n bwysig cydbwysu'r angen i ddod i sylw nifer o bobl â dewis pa bobl, gyda'r

llythyrau cyflwyno gorau, yw'r rhai gorau i gysylltu â nhw. Mae'n debyg mai'r ffyrdd cyntaf a mwyaf effeithiol yw:

Rhwydweithiau personol a phroffesiynol. Mae'n eithaf tebygol eich bod chi, cydweithiwr neu asiant lleol yn adnabod rhywun, neu'n adnabod rhywun sy'n adnabod rhywun arall. Gall y ffordd hon arwain at argymhellion a gwybodaeth heb lawer o gostau. Mae mynd i grwpiau trafod lleol neu gymryd rhan yn yr Academi Amaeth hefyd yn gallu cynnig rhwydwaith ehangach neu ddod o hyd i a gofyn i berchnogion tir wrth eich ymyl. Ond os nad ydych yn llwyddo i wneud hyn yna mae'n

gwneud synnwyr i ledaenu'r rhwyd a chwilio'n ehangach.

Y wasg. Mae'n fwy na thebyg y byddai hyn yn cynnwys rhoi hysbyseb bach yn y wasg ffermio neu mewn papur newydd lleol. Neu, mae cyfleoedd Mentro'n gallu ac wedi cael sylw yn y wasg fel straeon newyddion ynddynt eu hunain. Cysylltwch â thîm Mentro Cyswllt Ffermio os ydych eisiau cyhoeddu'rwydd ychwanegol.

Broceriaid. Mae nifer fawr o gyrff proffesiynol a gwirfoddol a allai wybod am bartneriaid posibl. Gallai enghreifftiau gynnwys cwmnïau syrfeyr gwledig, colegau amaeth neu gyrff fel ni yma ym Mentro.

Eich Proffil Mentro

Mae cwblhau Proffil Mentro'n rhan hanfodol o hysbysebu eich hun. Mae Mentro'n casglu proffiliau gan geiswyr a darparwyr drwy'r wlad. Mae'r proffil yn casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol i roi llun clir a chryno ohonoch, eich sgiliau, profiad, cefndir a gweledigaeth i'r dyfodol. Mae proffiliau darparwyr yn cael eu rhannu gyda'r ceiswyr. Os bydd unrhyw gyfleoedd o ddiddordeb iddynt, byddwn yn anfon proffil y ceisiwr at y darparwr.

Os nad ydych yng Nghymru, cysylltwch â Fresh Start Land Enterprise Centre (Lloegr) neu Land Mobility (Iwerddon).

Cysylltwch â ni

Tîm Mentro
Cyswllt Ffermio

Ffôn: 01970 636297

Ebost: einir.davies@menterabusnes.co.uk



2. Dewis

Yn ddelfrydol bydd y darparwyr a'r ceiswyr mewn sefyllfa i gymharu sawl opsiwn cyn gwneud dewis. Ein cyngor yw bod yn drefnus a defnyddio eich greddf:

Dylech gyfarfod, o leiaf unwaith. Mae'r angen i'r ceisiwr ddod allan i'r tir i gyfarfod y darparwr yn amlwg. Rydym hefyd o'r farn bod ymweliadau gan y darparwr, i'r gwrthwyneb, yn gallu creu sgysiau gwahanol a ddiddorol. Maent hefyd yn helpu i bwysleisio natur ddwyffordd trefniant Menter ar y Cyd nodweddiadol a llwyddiannus.

Defnyddiwch restr wirio ac ystyriwch y meysydd hyn:

Ymarferoldeb – a fydd yn gweithio?

Personoliaethau – fyddwch chi'n gallu cyd-dynnu?

Amgylchiadau – oes yna ryw beth ynglŷn ag amseru sy'n arbennig o dda, neu efallai heb fod mor dda?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod yn iawn beth yw eich anghenion a'ch nodau a cheisiwch beidio â gobeithio'n ofer. Os oes gennych bryder arbennig, dylech ei drafod a'i ddatrys. Beth bynnag fo'r canlyniad, mae'n well gwybod.

Mae gan Academi Amaeth Cyswllt Ffermio, sydd bellach ar ei bumed flwyddyn, 125 o alumni ac fe'i lansiodd gyntaf yn 2012.



Mae Naomi, Ceri a Reuben Davies i gyd wedi cymryd rhan yn yr Academi Amaeth.

Nodau'r Academi Amaeth yw darganfod yr unigolion mwyaf addawol ac uchelgeisiol sy'n ceisio dod yn rhan o'r diwydiant amaeth yng Nghymru heddiw, gan roi ysbrydoliaeth, hyder a sgiliau iddynt a'r cysylltiadau sydd eu hangen arnynt i ddod yn arweinwyr cefn gwlad, pobl fusnes ac entrepreneuriaid y dyfodol.

Mae'r Academi Amaeth yn paratoi'r ffordd i lwyddiant mewn busnes ar gyfer ei gyn aelodau, ac mae nifer ohonynt yn cydnabod y rhaglen lawn o hyfforddiant, mentora, cefnogaeth ac arweiniad ar draws nifer o ddisgyblaethau gyda'u llwyddiant presennol a'u cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ar ôl dewis yr ymgeiswyr, byddant yn cymryd rhan mewn cyfres o weithdai heriol a seminarau yn ystod tri chyfnod astudio preswyl, yn cynnwys ymweliad tramor.

Mae'n bosibl gwneud cais bob Ionawr. Am wybodaeth bellach, meini prawf cymhwysedd ac i lawr lwytho ffurflenni cais, ewch i: <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy>



Paru â'r partner priodol

Mae cysylltu'n bersonol yn ffordd dda o greu argraff dda ar y dechrau, ond mae'r gymuned ffermio'n gwneud defnydd cynyddol o drafodaethau, fforymau ar-lein, a mân hysbysebion er mwyn creu cysylltiadau.

Mae nifer o gyfleoedd ar gael ond mae angen gweithio i ddod o hyd iddynt. Yn aml mae darparwyr yn ansicr o ran beth y gallant ei gynnig ac nid ydynt eisiau buddsoddi mewn hysbysebion costus, tra bod ceiswyr angen gallu cael gafael ar nifer o opsiynau hyd yn oed os yw'n golygu symud i sicrhau hynny.

Creu argraff dda

Mae gwneud cais am gyfle i fod yn rhan o fenter ar y cyd yn gallu bod yn brofiad brawychus. Dyma rai meysydd lle gall darparwyr helpu ymgeiswyr i wneud y mwyaf o'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig.

- Gwahoddwch ddatganiadau o ddiddordeb yn gynnwys yn y broses
- Chwiliwch am ymgeiswyr newydd gan ddefnyddio rhwydweithiau lleol, grwpiau ffermwyr ifanc a cholegau
- Ceisiwch ddeall eu gofynion sylfaenol eu hunain i sicrhau cytundeb cytbwys
- Nodwch yn glir beth a ddisgwylir bob cam o'r ffordd
- Os yw'n briodol, defnyddiwch denantiaid sy'n gadael i fod yn fentoriaid neu ceisiwch eu hannog i drosglwyddo eu profiad i ymgeiswyr newydd
- Ceisiwch annog ymgeiswyr i gymryd cyngor cyfreithiol i gael gwiriad annibynnol dilys ar gyfer eu cyllidebau a'u cynlluniau.

"Mae angen i ffermwyr gael meddwl agored wrth ystyried mentrau ar y cyd. Mae potensial enfawr i gynyddu'r defnydd o gytundebau fel hyn ar ffermydd, a hynny er budd mawr i'r ddau bartner. Mae dod o hyd i'r person priodol yn hanfodol i lwyddiant y fenter, a byddwn yn argymhell bod cyfrifydd, cyfreithiwr a chynghorydd y fferm yn cael eu cynnwys yn gynnwys yn y broses er mwyn sicrhau bod unrhyw broblem bosibl yn cael ei thrafod ar y cychwyn."

Wendy Jenkins, Cynghorydd Arweiniol, CARA Cymru



Wendy Jenkins



Manteisiwch ar Weithdy Cynllunio Busnes. Archebwch apwyntiad am ddim mewn Sesiwn Adolygu Busnes. Gofynnwch am farn un o'n Mentoriaid.

10 prif beth

Y mae darparwyr yn chwilio amdanynt...

1. **Syniadau busnes realistig** – mae gan y darparwr ddiddordeb ariannol fod y busnes yn gwneud yn dda, felly rhaid cael achos busnes cadarn i gefnogi cymhelliad a brwdfrydedd. Mae'n hanfodol bod gennych ddealltwriaeth lawn o gynnwys eich cynllun busnes a'r ffigyrau sydd ynddo. Mynnwch gyngor os oes angen ond gwnewch yn siŵr nad yw eich syniadau eich hun yn cael eu newid neu eu haddasu.
2. **Proffesiynoldeb** – mae angen iddynt fod yn hyderus y bydd materion cydymffurfio, ymrwymadau cytundebol a busnes o ddydd i ddydd yn cael eu rheoli heb ffwdan.
3. **Ymrwymiad** – maent eisiau pobl dda fydd yn dal ati oherwydd ei fod yn hanfodol ar gyfer parhad ac oherwydd bod trosiant uchel o bartneriaid busnes yn gostus, yn cymryd amser ac yn risg.
4. **Cyfathrebu clir** – mae'n bwysig ym mhob perthynas waith, drwy'r amser.
5. **Hyfedredd ymarferol** – mae'n hanfodol ar gyfer rhedeg unrhyw fusnes ar y tir o ddydd i ddydd a chaiff ei ystyried fel ased.
6. **Cymhelliad a hyder** – i weithredu'r cynllun.
7. **Meddwl cadarnhaol** – mae gwneud bywoliaeth o'r tir yn gallu bod yn anodd ac mae hyd yn oed y berthynas fusnes orau'n gallu wynebu adegau rhwystredig, felly mae'n werthfawr iawn dod o hyd i bobl sy'n optimistaidd.
8. **Sefyllfa ariannol gadarn** – mae angen iddynt fod yn hyderus y gallir talu costau cychwyn busnes, ac mae'n rhaid i'r busnes fod yn deilwng o gredyd i fuddsoddi a thyfu. Byddai o fudd cael tystiolaeth o fynediad at gyfalaf neu bortffolio ariannol o fuddsoddiad blaenorol.
9. **Yr un gwerthoedd** – mae gwerth i dir, a thra nad oes yn rhaid i'r fenter newydd fod yn union beth fyddai'r perchennog tir yn ei wneud, dylai barchu a chyd-fynd â'i ethos.
10. **Rhywun y gallant gyd-dynnu ag ef/hi** – mae cymunedau ffermio'n aml yn golygu gweithio a byw yn agos at ei gilydd. Mae dod o hyd i bobl sy'n ffitio i mewn yn werthfawr iawn.

Y mae ceiswyr yn chwilio amdano...

1. **Yr isadeiledd cywir** – allan nhw redeg eu busnes o'r eiddo?
2. **Mynediad i farchnadoedd** – oes yna gwsmeriaid sy'n mynd heibio? Oes yna lwybrau penodol i'r farchnad, arwyddion addawol neu ddemograffeg leol ffafriol?
3. **Dêl deg** – efallai eu bod yn mentro eu dyfodol ar hyn, felly bydd dêl gadarn a thryloyw'n bwysig.
4. **Lle i ddatblygu** – o ran lle ffisegol, twf busnes a phosibiliadau – a fydd rhyddid ganddynt i addasu a thyfu wrth iddynt fynd yn eu blaenau?
5. **Cyfleoedd i gydweithio** – gallai fod yn farchnata, logisteg, peiriannau. Mae mentrau ategol, lle gellir cydweithio, yn gallu apelio at fusnes newydd sydd heb feithrin ei gapasiti eto.
6. **Sefydlogrwydd** – bydd angen iddynt ymroi'n llwyr i'w busnes newydd, felly mae angen iddynt deimlo'n hyderus bod amgylchiadau'n weddol sefydlog.
7. **Profiad** – bydd rhai yn gwerthfawrogi cyngor a phersbectif ffermwr profiadol neu fusnesau arall sydd wedi hen sefydlu.
8. **Anogaeth** – mae i'w groesawu os yw'n optimistaidd a chalonogol.
9. **Ymagwedd gallu-gwneud tuag at ddatrys problemau** – mae'r gallu ymarferol i ymateb, datrys, symud ymlaen yn amhriiadwy.
10. **Eglurder a chysondeb** – mae'n bwysig i'r ddau. Mae'n arbed amser, yn meithrin ymddiriedaeth.



Mae Eilir Evans yn un o'n mentoriaid ac yn ymwneud â sawl math o fenter ar y cyd.



Cymerodd Beca (chwith) ac Elin (dde) ran mewn Cystadleuaeth Menter Ffermwyr i ennill profiad a gwybodaeth.

Cam 3: Creu cytundeb cytbwys

Unwaith y bydd darparwyr a cheiswyr wedi dod o hyd i'w gilydd bydd angen iddynt ddiffinio perthynas fydd yn para.

Mae menter newydd ar y cyd yn galw am fuddsoddi cryn amser, egni, arian ac ewyllys da – na ellir ei adfer i raddau helaeth. Felly bydd y ceisiwr eisiau osgoi'r posibilrwydd o ddadwreiddio ei fusnes, a bydd y darparwr eisiau osgoi cael trosiant uchel o osodiadau, eiddo gwag neu wrthdaro buddiannau; gan fod y rhain i gyd yn defnyddio adnoddau ac yn gallu cael effaith ar gysylltiadau lleol.

Erbyn hyn bydd gan y ddau barti syniad clir o'u diddordebau a'u hamcanion eu hunain. Un elfen hollbwysig yw datblygu dealltwriaeth wirioneddol o ddiddordebau ei gilydd, a'u parchu. Bydd hyn yn helpu i ganfod synergeddau a gwrthdaro posibl yn gynnar er mwyn gallu adeiladu arnynt neu eu rheoli'n adeiladol fel y bo angen. Bydd hefyd yn helpu i osgoi camddealltwriaeth sy'n aml yn deillio o ragdybiaethau. Mae hon yn broses ddwyffordd ac yn gam hanfodol tuag at feithrin ymddiriedaeth a datblygu'r ddealltwriaeth sydd ei hangen i lunio perthnasoedd cadarn.

Er mwyn hwyluso creadigrwydd, erbyn hyn mae'n bwysig cadw opsiynau'n agored a pheidio â chanolbwyntio gormod ar ganlyniad penodol neu atebion

sydd wedi'u pennu ymlaen llaw. Po orau yr ydych yn deall anghenion y naill a'r llall, y mwyaf dychmygus fydd y broses o archwilio dulliau i'w cyflawni.

Mae hyn yn galw am ddull tryloyw a hyblyg a pharodrwydd i ddelio â phroblemau a chyfleoedd gyda'i gilydd, ochr yn ochr yn hytrach na mewn sefyllfa o negodi. Er mwyn creu perthnasoedd gwirioneddol gadarnhaol mae o fudd i'r ddau bartner helpu i ddatrys problemau ei gilydd i sicrhau budd i'r naill a'r llall. Mae'n bosibl y gallai pethau sydd â chost isel i un partner fod o werth uchel i'r llall. Mae rhestru cyfleoedd fel hyn yn gallu bod yn fanteisiol.

Nid drwy fargeinio caled neu un partner yn cael dêl dda ar draul y llall yw'r ffordd i drefniadau mentrau ar y cyd lwyddo. Bydd cytundebau unochrog yn wan, yn creu atgasedd ac yn achosi anghytuno neu broblemau cynnar. Does dim o'i le ar gefnogi eu buddiannau eu hunain yn frwd, ond er mwyn cael perthynas gadarnhaol dylai'r darparwr a'r ceisiwr sicrhau cydbwysedd priodol a bod ag agwedd agored ynglŷn â'r ffordd orau i gynnal buddiannau ei gilydd. Mae cynghorwyr proffesiynol profiadol neu asiantau sy'n gweithio i friff addas yn gallu hwyluso'r holl broses.



Gall Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio gynnig cyngor ac arweiniad wedi'i ariannu'n llawn i ddarparwyr a cheiswyr sy'n sefydlu menter newydd ar y cyd. Gall ein rhwydwaith o gynghorwyr achrededig eich helpu i ddatblygu a chytuno ar gynllun a strwythur busnes addas. Gallwn hefyd gynnwys gwasanaeth cyfreithiwr amaethyddol i gynnig arweiniad cyfreithiol a chreu cytundebau ffurfiol. Mae hyn wedi'i ariannu'n llawn i aelodau cymwys o Gyswllt Ffermio.



Mae Rhys Williams wedi bod ynghlwm â nifer o Fentrau ar y Cyd ac mae'n un o'n mentoriaid. Trwy ein Rhaglen Fentora, gallwch gael mynediad at hyd at 22.5 awr o gefnogaeth ac arweiniad gan Rhys wedi ei ariannu'n llawn.



Neil Blackburn

“Mae'r Rhaglen Mentro yn fforwm gwych i ffermwyr chwilio am gyfleoedd Mentrau ar y Cyd. Drwy'r gwasanaeth cynghori hwn, gallwn gynnig cyngor annibynnol i edrych ar opsiynau busnes ar gyfer Menter ar y Cyd, i sicrhau bod strwythur teg ac ymarferol yn cael ei ddatblygu i'r Ffermwr a'r Perchennog Tir. Mae cyngor cyfreithiol gan Gyfreithiwr hefyd yn cael ei gynnig fel rhan o'r gwasanaeth hwn”.

Neil Blackburn, Cynghorydd Arweiniol, Kite Consulting

Wrth bennu cydbwysedd y fenter, un ystyriaeth allweddol fydd lefel y risg y mae bob parti yn teimlo y gall ei chymryd. Bydd hyn yn amrywio o berthynas i berthynas a bydd yn dibynnu ar brofiad, sgiliau a hyder bob parti, yn ogystal â'u cymhelliant personol a'u hadnoddau.

Fel arfer, mae cytundebau tenantiaeth yn cael eu llunio gan y perchennog neu eu hasiant ac yn tueddu i ffafrio eu buddiannau penodol. Mae cytundeb Menter ar y Cyd yn annog defnydd mwy hyblyg o gytundebau, gan deilwra cyfrifoldebau cytundebol sy'n addas i amgylchiadau unigol a'r lefelau rheolaeth amrywiol sydd eu hangen ar bob parti.



Jeremy Bowen-Rees

“Wrth drafod neu gydweithio, llunio partneriaeth neu fod yn rhan o fenter ar y cyd, mae'n bwysig dros ben bod pob partner yn gwybod yn glir beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau penodol a rhai eu cyd bartneriaid/ cydweithwyr. Mae menter ar y cyd neu gydweithio perffaith yn creu sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill. Os nad yw unrhyw bartner yn gallu diffinio sefyllfa lle bydd pawb ar ei ennill ymlaen llaw, peidiwch â chydweithio. Mae pawb yn tueddu i fod yn gadarnhaol iawn ar y cychwyn ond mae'n bwysig eich bod yn cofnodi'r manylion yn ysgrifenedig. Bydd egluro hyn cyn i'r cydweithio ffurfiol ddechrau yn helpu i atal problemau yn ddiweddarach. Mae Landsker bob amser yn cynghori'r rhai sy'n ystyried cydweithio i bwysu a mesur y prif risgiau a'r pethau gwaethaf a allai fynd o'i le. Mae manylu ar y rhain yn y broses gynllunio'n helpu i osgoi risgiau fel hyn”.

Jeremy Bowen-Rees, Rheolwr Gyfarwyddwr, Landsker

Diffinio'r fenter: pethau i'w hystyried

- Pa dir, adeiladau, peiriannau neu dda byw sy'n rhan o'r fenter?
- Pa mor hir ddylai'r cytundeb bara?
- Pwy sy'n darparu cyfalaf?
- Pa wasanaethau sydd ar gael?
- Pa help a chymorth fydd ei angen ar y busnes?
- Faint o reolaeth mae'r darparwr eisiau ei chadw?
- Beth yw sail ac amllder talu a pha mor aml y dylid ei adolygu?
- Pa lefel o risg mae bob partner yn fodlon ei gymryd?

Gallai darparwyr fod yn awyddus i wneud y canlynol...

- Creu incwm
- Defnyddio a chynnal adeiladau
- Cefnogi'r gymuned leol
- Annog talent busnes newydd
- Adeiladu cefnogaeth ar gyfer datblygu yn y dyfodol
- Creu mentrau ategol
- Ychwanegu gwerth at fentrau sy'n bodoli'n barod
- Dangos arfer gorau
- Gwella'r amgylchedd
- Lleihau eu hól troed carbon
- Cynyddu gwytnwch busnesau lleol
- Sicrhau effeithlonrwydd treth

Gallai ceisiwyr fod yn awyddus i wneud y canlynol...

- Sicrhau bywoliaeth
- Gwireddu breuddwyd
- Aros mewn ardal
- Dilyn diddordeb
- Troi syniad busnes gwych yn realiti
- Defnyddio eu sgiliau arbenigol
- Datblygu sgiliau busnes newydd
- Cyfrannu at eu cymuned
- Parhau â busnes teuluol
- Sefydlu menter deuluol i genedlaethau iau
- Gweithio ochr yn ochr â busnesau ategol

Cam 4: Dewis fframwaith cyfreithiol

Ar ôl diffinio'r materion ymarferol a'r telerau, mae'n bryd cytuno ar y fframwaith cyfreithiol priodol.



Unwaith mae'r darparwr a'r ceisiwr wedi diffinio eu perthynas fusnes yn drylwyr, maent mewn sefyllfa gadarn i ddechrau meddwl am fframweithiau cyfreithiol priodol i ffurfioli eu cytundeb.

Yn gyffredinol, mae sbectrwm rheoli eang o opsiynau cyfreithiol: o ddarparwyr yn cael rheolaeth lawn yn un pegwn, i geiswyr yn cymryd mwy o reolaeth yn gynyddol tuag at y pegwn arall, fel y dangosir isod. Un ffordd effeithiol o ddatblygu'r math o gytundeb a allai weithio i chi yw nodi ble mae telerau eich perthynas fusnes ar hyd y sbectrwm hwn.

Os gallwch fynd cyn belled â hyn cyn briffio eich cyfreithwyr, yna rydych yn fwy tebygol o gael fframwaith cyfreithiol sy'n addas i'ch dibenion. Hefyd rydych yn debygol o arbed arian: po gliriaf yw'r briff, y mwyaf cost effeithiol fydd y broses gyfreithiol.

Sbectrwm o opsiynau cyfreithiol

Mae gwahanol fathau o gytundebau cyfreithiol ar gael, sy'n rhoi gwahanol lefelau o reolaeth i'r darparwr a'r ceisiwr. Yn un pegwn, byddai'r tir yn cael ei ffermio o dan reolaeth lwyr y perchennog, ef/hi fyddai'n gwneud y penderfyniadau busnes, ac yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gwaith ffermio'n uniongyrchol ac yn ysgwyddo'r risg ariannol lawn. Yn y pegwn arall, gallai'r perchennog werthu'r tir, a'i drosglwyddo i rywun arall. Rhwng y ddau begwn hyn mae nifer o opsiynau a allai fod yn addas i wahanol amgylchiadau.

1 Mae **contract hunan gyflogedig ar gyfer gwasanaethau'n** fodel a ddefnyddir yn aml gan ffermwyr ifanc fel y cam cyntaf cyn cymryd rhagor o gyfrifoldeb o dan fodel busnes arall. Fe'i defnyddir yn rheolaidd gan deuluoedd ffermio fel y cam cyntaf cyn cyflwyno'r genhedlaeth iau i'r bartneriaeth. Mae gan y ffermwr hunan gyflogedig ei fusnes ei hun fel gweithiwr fferm ac mae'n rheolwr arno'i hun, ac yn derbyn tâl am ei lafur a anfonebir i'r busnes ffermio. Mae'r ffermwr hunan gyflogedig yn gyfrifol am ei Dreth Incwm ei hun a'i gyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol a bydd raid iddo gwblhau ffurflenni treth blyneddol, tra bydd y busnes ffermio'n cwblhau ei ffurflenni treth ei hun.

2 Gyda **model Gweithiwr (PAYE)** mae'r perchennog tir yn cadw rheolaeth ac yn cyflogi'r ceisiwr i gyflawni rôl benodol ar y fferm, fel arfer gweithiwr fferm cyffredinol. Telir cyflog sefydlog i'r gweithiwr a byddai'r cyflogwr yn gyfrifol am bethau fel cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol, cyfran o Dreth Incwm a chyfraniadau pensiwn o bosibl. Mae gan weithiwr hawliau cyflogaeth ychwanegol a chyfrifoldebau nad ydynt yn berthnasol i weithwyr hunan gyflogedig, fel yr hawl i dâl salwch statudol, cyfnodau rhybudd byrraf ar gyfer dod â chyflogaeth i ben, absenoldeb statudol ar gyfer rhieni ayb (Nodwch fod isafswm hyd o ran gofyniad cyflogaeth barhaus i rai o'r hawliau ychwanegol a'r cyfrifoldebau).

3 Mae **ffermio contract** yn fodel a ddefnyddir yn aml gan berchnogion neu denantiaid

amaethyddol sy'n dal eisiau ymwneud â ffermio ond heb fod eisiau gwneud gwaith o ddydd i ddydd. Fel arfer, bydd y ffermwr yn rhedeg y busnes ac yn gwneud y prif benderfyniadau ond bydd contractwr yn gwneud y gwaith ffermio ymarferol fel asiant ar gyfer y ffermwr. Ni all y ffermwr gael incwm sicr o dan drefniant fel hwn oherwydd, i bwrpas treth rhaid iddo fod yn amlwg ei fod ef/hi'n cymryd risg ariannol. Hefyd bydd yn cadw'r cyfrifoldeb dros gydymffurfio cyfreithiol a rheoleiddiol.

4 Defnyddir **trwyddedau** fel mater o drefn i osod hawliau pori ar sail tymor byr, yn aml fesul tymor. Y perchennog tir sy'n dal y tir yn ffurfiol, i bwrpas taliadau sylfaenol a chroes gydymffurfio. O ran Treth Etifeddiaeth, gall trwyddedau ganiatáu i'r perchennog tir hawlio Rhyddhad rhag Trethu Eiddo Amaethyddol mewn achos o farwolaeth, er bod hwn yn faes amwys ac yn destun craffu ar hyn o bryd gan CThEM. Gall trwyddedau fod yn ddefnyddiol i'r ceisiwr, yn aml fel atodiad i dir arall a ddelir o dan gytundebau mwy hirdymor, er enghraifft ar gyfer pori, gwneud cnydau, neu gynaeafu cnwd arbenigol. I'r perchennog tir gallant gynnig ffordd o bori tir heb orfod rhedeg menter da byw, neu gyflwyno opsiynau rota newydd i system â, fel glaswellt/gwyndwn meillion.

5 Mae **ffermio cyfran** yn ffordd o alluogi dau bartner ffermio'r un tir ar y cyd gyda'r naill a'r llall yn rhedeg ei fusnes ei hun ar wahân. Fel arfer, bydd y perchennog yn darparu'r tir, yr adeiladau a'r offer sefydlog tra bydd y ffermwr yn

cynnig llafur, arbenigedd rheoli a pheiriannau ac offer symudol. Fodd bynnag, mae cytundebau ffermio cyfran yn hyblyg a phwrpasol i'r ddau bartner ystyried beth y gallant ei gynnig. Gellir rhannu da byw, gyda'r ddau bartner yn berchen ar gyfran y cytunwyd arni o bob anifail neu un partner yn berchen ar bob un ohonynt. Telir costau mewnbwn mewn cyfrannau y cytunwyd arnynt ac mae pob partner yn berchen ar gyfran a bennwyd ymlaen llaw o'r cynnyrch.

6 Gellir defnyddio **partneriaethau ffermio** i alluogi perchennog i redeg fferm gydag eraill lle mae pawb yn bartner yn y busnes. Yn aml defnyddir y rhain i gynnwys aelodau'r teulu a gallant fod yn gymhleth yn gyfreithiol ac o ran treth. Mae angen bod yn ofalus iawn wrth eu sefydlu a'u rheoli i osgoi problemau mewn achos o farwolaeth neu ymddeoliad partner. Gellir cynnwys darpariaethau i ddiogelu'r partner sy'n berchen y tir o ran unrhyw gyfalaf tir a dylai'r cytundeb partneriaeth ddiffinio'n glir y cyfalaf gwaith a'r cyfalaf tir lle y bo'n briodol.

7 Mae **partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig** yn endid cyfreithiol arall sydd rhwng partneriaeth draddodiadol a chwmni. Tra gall aelodau partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig weithredu'n effeithiol fel partneriaid, mae nifer o ofynion gweinyddol partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn debyg i'r rhai ar gyfer cwmni, er enghraifft, gyda ffeil cyfrifon yn Nhŷ'r Cwmnïau. Yr hyn sy'n apelio ynglŷn â phartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yw bod

atebolrwydd un partner yn gallu cael ei gyfyngu mewn ffordd nad yw'n bosibl gyda phartneriaeth draddodiadol. Gellir rheoleiddio'r berthynas rhwng partneriaid drwy gytundeb partneriaid, a rhwng rhanddeiliaid cwmni drwy gytundeb rhanddeiliaid. Mae modelau eraill sy'n dilyn strwythur corfforaethol neu debyg yn bodoli a chyfeirir at nifer o'r rhain yn ein henghreffitiau trosodd.

8 Mae gan **gwmnïau cyfyngedig** hunaniaeth gyfreithiol ar wahân. Felly, gallant fod yn berchen ar asedau yn eu hawl eu hunain yn ogystal â phethau fel llunio contract yn eu henw eu hunain, erlyn am ddyledion, gorfodi contractau ayb. Mae cwmnïau cyfyngedig yn eiddo i randdeiliaid, ac mae eu hatebolrwydd wedi eu cyfyngu, yn dibynnu ar werth y cyfrannau sydd yn eu meddiant. Caiff cwmnïau cyfyngedig eu rhedeg gan gyfarwyddwyr a benodir gan y rhanddeiliaid, ond bydd angen cael penderfyniadau'r rhanddeiliaid ar gyfer rhai penderfyniadau yn dibynnu ar gyfansoddiad y cwmni. Mae rheolau llym ynglŷn â sut dylai'r cwmni cyfyngedig gael ei weithredu, gyda gofynion ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd, pleidleisio a chadw cofnodion priodol. Hefyd mae rheolau llym ynglŷn ag enwau cwmnïau y gellir eu defnyddio. Fodd bynnag, mantais cwmni cyfyngedig yw eu bod yn talu treth gorfforaethol ar gyfradd o 20% yn hytrach na threth incwm a allai fod ar gyfradd o 40% os ydych yn talu treth ar gyfradd uwch.

9 Mae **partneriaethau ecwiti'n** debyg iawn i bartneriaethau, ond mae hawl gan

bartneriaid ecwiti i gyfran o enillion y bartneriaeth yn hytrach na bod yn bartner cyflogedig. Mae partneriaid ecwiti'n gwneud cyfraniad cyfalaf pan mae'n dod yn bartner ecwiti. Hefyd mae'n atebol am ddyledion y bartneriaeth, sy'n gallu bod yn anfantais oherwydd os nad yw'r bartneriaeth yn gallu talu ei dyledion, mae'r partneriaid ecwiti'n atebol am unrhyw ddiffyg ariannol.

10 Mae **ymddiriedolwyr** yn dal y tir ar ymddiried ar gyfer y buddiolwyr o dan y model hwn. Mae gan yr ymddiriedolwyr reolaeth dros y tir a sut y mae'n cael ei ffermio, a gallant wneud hyn naill ai drwy ffermio'n weithredol neu ddefnyddio un o'r modelau eraill yn dibynnu ar bwerau'r weithred ymddiriedolaeth. Rhaid cynnal cyfalaf yr ymddiriedolaeth ar gyfer y buddiolwyr bob amser. Un anfantais o ddefnyddio dull ymddiriedolaeth yw y gall gymhlethu pethau i'r ffermwr, oherwydd cyfyngir ar yr hyn y gellir ac na ellir ei wneud, er enghraifft, mae'n debygol na fydd yn gallu cael morgais ar gyfer y fferm. Fodd bynnag, gallai hyn apelio at rai perchnogion tir.

11 **Tenantiaethau Busnes Fferm Confensiynol** yw'r model mwyaf cyffredin ar gyfer gosodiadau tir o'r newydd. Nid oes gan y perchennog unrhyw ran uniongyrchol ym musnes y fferm ac yn syml iawn, mae'n cynnig y tir a/neu'r adeiladau yn gyfnewid am rent y cytunwyd arno. Mae'r rhent fel arfer yn seiliedig ar werth y daliad ar y farchnad a gall gael ei adolygu'n unol â'r cytundeb neu'n unol â deddfwriaeth, a gellir cynnal adolygiad bob tair blynedd. Oherwydd hynny nid yw'n adlewyrchu unrhyw amrywiadau

blynyddol yn elw'r fferm, sy'n golygu y gall y tenant wynebu lefel uchel o risg. Fodd bynnag, mae Tenantiaethau Busnes Fferm Confensiynol yn llawer mwy hyblyg na'r drefn flaenorol o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol ac mae llawer mwy o ryddid i'r landlord a'r tenant gytuno ar delerau sy'n addas i'w perthynas arbennig nhw. Mae posibiladau enfawr i ddefnyddio Tenantiaethau Busnes Fferm Confensiynol mewn ffordd ddychmygus i efelychu manteision mathau eraill o gytundebau mewn ffordd fwy cyfarwydd.


12 Mae Perchnogion sy'n **gosod eiddo ar sail hirdymor** ac sy'n hapus i drosglwyddo lefel uchel o reolaeth o'u tir ond sy'n awyddus i ddal eu gafael arno yn gallu ystyried gosod ar sail hirdymor. Tenantiaethau Busnes Fferm Confensiynol hirdymor yw'r math mwyaf tebygol i fusnesau fferm neu gallai gosod busnes fod yn addas, yn dibynnu ar y math o eiddo ydyw. Mae gofynion cofrestru ar gyfer gosodiadau hirdymor, sy'n rhywbeth i'w ystyried wrth feddwl am y model hwn. Mae'n bosibl hefyd y byddai angen talu Treth Dir y Dreth Stamp ar sail ei werth ar y farchnad.



Gwnewch yn siŵr eich bod yn manteisio ar y wybodaeth a'r arbenigedd a ddarperir gan ein Cymorthfeydd Un i Un a'n Gwasanaeth Cyngori er mwyn dewis y fframwaith cyfreithiol orau i chi.



Y sbectrwm o opsiynau cyfreithiol sydd ar gael ar gyfer Mentrau a'r Cydar ffermydd wedi'u trefnu'n unol â'r rheolaeth sydd rhwng y darparwr a'r ceisiwr.



PAC a Brexit

Dr Nerys Llywelyn Jones, Cyfreithwyr Agri Advisor.

Gwnewch yn siŵr bod digon o hyblygrwydd o fewn y cytundeb i addasu i newid, yn enwedig o ystyried Brexit.

© Fresh Start Land Enterprise Centre



Dr Nerys Llywelyn Jones

Un ffactor a allai ddylanwadu ar y strwythur cyfreithiol a ddewisir ar gyfer y fenter yw'r Cynllun Taliad Sylfaenol sydd ar gael. Mae isgymorthdaliadau'n rhan bwysig o incwm daliad, a bydd angen i'r partion benderfynu sut i ddelio â'r Taliad Sylfaenol. Er mwyn ei hawlio, rhaid i'r hawlydd fod yn 'ffermwyr gweithredol' ac felly mae angen ystyried sut bydd y strwythur yn gweithio. Os yw'r perchennog tir yn cadw rheolaeth, yna mae'n debygol mai ef/hi fydd yr hawlydd, neu os oes gan yr ceisiwr fwy o reolaeth, mae'n debygol mai ef/hi fydd yr hawlydd. Fodd bynnag, os oes rhyw fath o reolaeth yn cael ei rhannu, mae angen ystyried pwy sydd yn y sefyllfa orau i hawlio'r taliad. Mae'n bosibl y bydd gan y darparwr hawliau'n barod ac y bydd felly'n awyddus i

barhau i hawlio, neu efallai byddai'r ceisiwr yn gymwys i gael hawliau'r Gronfa Genedlaethol ac felly byddai'n gwneud synnwyr iddo ef neu iddi hi fod yn hawlydd neu efallai ei fod/bod yn ffermwr ifanc, a allai fod yn gymwys ar gyfer y taliad ychwanegol i ffermwr ifanc pe bai ef/hi'n hawlydd. Yna mae angen i'r partion benderfynu sut i ddelio â'r Taliad Sylfaenol o ran rhannu incwm y fferm. Mae arweiniad i'w gael ar wefan Llywodraeth Cymru ond mae bob amser yn werth cael cyngor ar y mater yma.

Mae Brexit wrth gwrs yn berthnasol wrth drafod y Cynllun Taliad Sylfaenol. Y Cynllun Taliad Sylfaenol yw'r cymorth uniongyrchol sy'n deillio o'r Polisi Amaeth Cyffredin (PAC). Gweithredir y PAC ar lefel ranbarthol,

gyda phob un o'r gweinyddiaethau datganoledig yn mabwysiadu ei dehongliad a'i defnydd ei hun o reolau CAP yr UE. Mae'r Trysorlys wedi cyhoeddi y bydd yn sicrhau'r lefel bresennol o gyllid amaeth o dan Biler I o'r CAP tan 2020, ac mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn anrhydeddu contractau presennol Glastir. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ar hyn o bryd ynglŷn â beth ddaw wedyn o ran y Cynllun Taliad Sylfaenol a Glastir. O ganlyniad, mae angen i ffermwyr feddwl yn ofalus am unrhyw gytundebau y maent yn eu llunio, er enghraifft mae pennu rhent teg ar gyfer daliad sy'n amodol ar Denantiaethau Busnes Fferm yn anodd ar hyn o bryd oherwydd nad ydym yn gwybod faint o isgymhorthdal fydd ar gael i'r daliad. Felly, y cyngor a roddir yw y dylid cynnwys darpariaethau adolygu rhent mewn cytundebau tenantiaethau er mwyn gallu adolygu'r rhent unwaith y ceir awgrym pellach ynglŷn â pha daliadau isgymhorthdal a roddir, os o gwbl, ar ôl Brexit. Gellir cyflwyno darpariaethau tebyg i fathau eraill o gytundeb. Ystyriaethau Cyfreithiol:

Legal Considerations:

- Gwnewch yn siŵr fod telerau unrhyw fenter wedi eu cofnodi'n ysgrifenedig, a'u cynnwys mewn cytundeb cyfreithiol. Os na chofnodir unrhyw delerau y cytunwyd arnynt, gallech orfod wynebu hawliau a rhwymedigaethau ymhlyg yn y gyfraith nad oedd yn fwriad gan y partion.
- Gwnewch yn siŵr bod y cytundeb yn delio â phob digwyddiad posibl yn cynnwys

beth fydd yn digwydd os na fydd pethau'n mynd yn ôl y bwriad. Mae hefyd yn bwysig cynnwys unrhyw beth sy'n benodol i'r daliad hwn neu i'r fenter hon.

- Mae'r diwydiant amaeth yn ffodus iawn ei fod yn gallu hawlio'r Rhyddhad rhag Trethu Eiddo Amaethyddol a'r Rhyddhad rhag Trethu Eiddo Busnes ar hyn o bryd i liniaru'r Dreth Etifeddiaeth. Fodd bynnag, mae angen bodloni rhai amodau er mwyn hawlio'r rhyddhad ac felly mae'n bwysig, yn arbennig fel perchennog tir, sicrhau nad yw'r trefniant yn niweidio unrhyw ryddhad o'r fath sydd ar gael.
- Ystyriwch unrhyw ddatblygiad angenrheidiol mewn perthynas â menter ar y cyd. Os bydd angen datblygiad, rhaid rhoi sylw i unrhyw ganiatâd cynllunio y bydd angen ei gael. Gallai defnyddio adeiladau hefyd effeithio ar y posibilrwydd o hawlio'r rhyddhad rhag treth y cyfeirir atynt uchod.
- Ystyriwch unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol a sut y byddai'r rhain yn effeithio ar fenter ar y cyd sydd eisoes yn bodoli. A fyddai angen y tir yn ôl i'w ffermio gan y perchennog tir pe bai unrhyw bosibiliadau i ddatblygu? Sut fyddai'r ceisiwr yn cael ei ddiogelu?
- Ystyriwch sut mae'r fenter yn effeithio ar eich gallu i hawlio'r Cynllun Taliad Sylfaenol a Glastir a gwnewch yn siŵr nad yw'r fenter newydd yn mynd yn groes i ofynion y cynllun.

- Mae bob amser yn syniad da ymgynghori â'r holl bobl broffesiynol sy'n rhan o'ch busnes o safbwynt unrhyw gytundebau menter ar y cyd. Mae cyfrifwyr, cyfreithwyr ac ymgynghorwyr busnes oll yn chwarae rhan i sicrhau bod y cytundeb yn addas i'ch busnes a'i anghenion wrth iddo ddatblygu.
- Gwnewch yn siŵr bod digon o hyblygrwydd o fewn y cytundeb i fabwysiadu newid, yn enwedig o ystyried Brexit, ac i alluogi i'r ddau barti fanteisio ar unrhyw gyfleoedd a allai godi wrth ddatblygu.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnal cyfarfodydd adolygu a thrafodaethau rheolaidd i ystyried y sefyllfa a thrafod eich cynllun rheoli, a thrwy hynny sicrhau arferion gorau. Mae'n fuddiol i'r ddau barti sicrhau'r lefel uchaf posibl o effeithlonrwydd a phroffidioldeb yn y fenter.



Cam 5: Meddwl hirdymor

Caniatáu i'r bartneriaeth addasu wrth i'r busnes ddatblygu.



Bydd sefydlu Menter newydd ar y Cyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth, agwedd agored a chytundeb cytbwys sy'n wir barchu buddiannau'r ddau barti'n arwain yn uniongyrchol at well siawns o lwyddo. Ond mae busnes gwledig yn gweithredu mewn amgylchedd dynamig – mae marchnadoedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau'n mynd a dod, safonau a disgwyliadau defnyddwyr yn newid, technoleg yn datblygu, profiad yn tyfu a sgiliau newydd yn cael eu datblygu. Felly, os yw'r busnes a'r Fenter ar y Cyd am fod yn effeithiol yn yr hirdymor rhaid troedio'n ofalus a bod yn barod i addasu a newid er mwyn ymateb i'r pwysau a manteisio ar gyfleoedd newydd.

Yn anad dim, mae'n hanfodol cynnal ewyllys da yn y berthynas a chydabod gwerth hyn mewn trafodaethau ariannol. Mae nifer o berthnasoedd tir a busnes yn dechrau'n dda, yn optimistaidd ac yn llawn bwriadau da, ond yn methu pan ddaw'n amser i adolygu'r busnes, yn arbennig materion ariannol. Nid yw byth yn hawdd sicrhau cydbwysedd o ran manteision ond mae'n allweddol i lwyddiant y berthynas. Rhaid deall a chydabod yn briodol gyfraniad y ddau barti.

Nid yw hyn yn golygu'r cyfraniad ariannol yn unig; rhaid hefyd

ystyried yn briodol y sgiliau, yr ymdrech gorfforol a'r cyfraniadau emosiynol sydd mor bwysig i wneud i fusnes weithio.

Rhai o'r pethau pwysig sy'n helpu i wneud perthynas bara:

- Perthynas agored a didwyll sy'n meithrin a chynnal ymddiriedaeth
- Yr un amcanion – deall a pharchu buddiannau eich gilydd
- Sicrhau deialog reolaidd drwy gydol y cytundeb a pheidio â'i gadael tan y dyddiad adolygu swyddogol

- Cadw nodiadau o awgrymiadau, syniadau a cheisiadau, a allai arwain at unrhyw addasiad o'r cytundeb hirdymor
- Hyblygrwydd – bod yn agored i syniadau newydd
- Parodrwydd i ddysgu yn sgil profiad
- Cydnabod a gwerthfawrogi rhyngddibyniaeth – rhannu problemau
- Trafod beth fydd yn digwydd os bydd pethau'n mynd o'i le – sut bydd pethau'n cael eu datrys? Gan bwy?

Pethau pwysig sy'n helpu i wneud i berthynas bara:

- Perthynas agored a didwyll sy'n meithrin a chynnal ymddiriedaeth
- Yr un amcanion – deall a pharchu diddordebau eich gilydd
- Deialog reolaidd ac adolygu – nid yn unig ar y dyddiad adolygu rhent
- Hyblygrwydd – bod yn agored i syniadau newydd
- Parodrwydd i ddysgu yn sgil profiad
- Cydnabod a gwerthfawrogi rhyngddibyniaeth – rhannu problemau

Mwy nag un cytundeb

Yn aml bydd cytundebau Mentrau ar y Cyd yn gytundeb un-tro, ar gyfer un darn o dir neu gytundeb busnes, ond wrth i'r dull hwn ddechrau cael ei ddefnyddio mewn mwy o gytundebau mae dau opsiwn:

1. Y perchennog tir yn adeiladu clwstwr o fentrau

Gellir hefyd defnyddio cytundebau Mentrau ar y Cyd yn gynyddol i adeiladu cymuned o fentrau tir. Gall y newid sylweddol hwn mewn model busnes arwain at nifer o fanteision:

- I'r perchennog tir mae'n arallgyfeirio ffrydiau incwm ac yn adeiladu gwytnwch ariannol drwy ledaenu'r risg o fethu ac amrywiadau incwm ar draws nifer o fentrau a mathau o fusnes

- I bob parti mae potensial i ehangu rhwydweithiau ac agor marchnadoedd newydd
- Mae'n creu cyfleoedd i gydweithio drwy farchnadoedd mewnol ar gyfer deunyddiau, llafur a chynnyrch gwastraff. Neu gydweithio ymarferol fel rhannu peiriannau neu gost cynlluniau dilysu; neu drwy lunio syndicadau marchnata a datblygu brandiau a rennir.

Gwneud iddo weithio

Os oes hawl gan y darparwr i ddatblygu clwstwr o fentrau, bydd angen dull gweithredol a strategol i hyn lwyddo. Yn benodol, bydd angen cyflawni dwy brif swyddogaeth: yn gyntaf, darparu isadeiledd effeithlon, yn ymarferol a gweinyddol; ac yn ail, dewis y cyfuniad priodol o fentrau a sicrhau eu bod yn gweithio'n dda gyda'i gilydd.

Yn ein profiad ni, mae'r canlynol yn werthfawr:

• Ymgynghori

Gwnewch yn siŵr fod busnesau presennol neu arfaethedig yn ymwybodol o'ch bwriad i greu clwstwr o fentrau; gallai fod yn gynnig deniadol

• Dadansoddi'r system

Meddylwch sut gallai'r mentrau gyd-fynd â'i gilydd yn y dyfodol; beth fydd ei angen arnynt, a beth allan nhw ei gynnig. Dewiswch nhw, a'u lleoli'n unol â hynny.

• Meini prawf dethol

Defnyddiwch nhw i brofi cynigion i sicrhau eu bod yn ategu busnesau presennol

• Cydweithio

Bydd busnesau'n rhyngweithio oherwydd y cysylltiad agos rhyngddynt ond gall fforwm

rheolaidd i gynnig a thrafod syniadau i fusnesau gydweithio helpu i sicrhau na cholir unrhyw gyfleoedd.

2. Ceisiwr gyda mwy nag un cytundeb

Mae hyn yn dechrau cael ei weld yn gynyddol lle daw set o gytundebau ategol at ei gilydd er budd busnes y ceisiwr yn gyffredinol, efallai'n ymwneud â sawl gwahanol berchennog tir. Er enghraifft, efallai bydd rhai'n dechrau gyda thrwydded bori, yna'n ehangu hon gyda menter ar y cyd ac efallai'n ddiweddarach gyda thenantiaeth. Mae posibiliadau enfawr i entrepreneur ehangu ei fusnes yn sylweddol drwy weithio gyda nifer o berchenogion tir ond dylech ystyried y canlynol:

- Dechreuwch gydag un cytundeb a gwnewch yn siŵr y gallwch ei weithio a'i reoli'n dda cyn cychwyn ar fentrau newydd
- Os ydych yn ystyried ychwanegu cytundebau eraill, oes gennych chi ddigon o amser ac arian i ymrwymo'n llawn iddynt?
- Byddwch yn onest â chi eich hun – ydyn nhw'n cyd-fynd â'ch cynllun busnes cyffredinol? Ceisiwch ddadansoddi cryfderau a gwendidau pob un. Gofynnwch am gyngor ychwanegol os oes angen
- Os oes gennych gytundeb yn barod, a ddylech chi, o barch ac ewyllys da, drafod a hysbysu'r partion eraill hyd yn oed os nad oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r cytundebau newydd? Ydi partner y cytundeb

newydd posibl yn cael gwybod am eich mentrau eraill?

- Peidiwch â rhoi eich cytundebau gwreiddiol mewn risg o fethu oherwydd diffyg mewnbwn a chyfathrebu
- Adolygwch eich busnes yn rheolaidd a gwnewch yn siŵr fod gennych y cyfuniad iawn o gytundebau. Wrth i'r busnes dyfu efallai bydd angen newid y cydbwysedd rhyngddynt
- Gallai amryw o gytundebau ledaenu eich costau a'ch gorbenion yn fwy effeithiol a chynyddu incwm ac efallai nad yw bob amser yn ymwneud â thir a ffermio!

Astudiaeth Achos

Mae dyfodol disglair ar y gweill i ddau ffermwr defaid ifanc yng Ngogledd Cymru diolch i fenter fasnachu ar y cyd gyda thirfeddiannwr lleol adnabyddus.

Mae dau ffermwr ifanc uchelgeisiol yng Ngogledd Cymru yn hyderus eu bod yn wynebu dyfodol disglair diolch i weledigaeth tirfeddiannwr lleol a threfniant cyd-ffermio a drefnwyd gan raglen Mentro Cyswllt Ffermio.

Mae Mentro yn cynnig gwasanaeth 'cyfateb' a/neu gefnogaeth i ffermwyr sydd am leihau eu busnes neu ddod allan o'r diwydiant a ffermwyr sy'n ei chael hi'n anodd camu i mewn i redeg eu busnes eu hunain.



Mae'r ffermwr a'r tirfeddiannwr adnabyddus o Abergele, Harry Fetherstonhaugh yn awr mewn trefniant ffermio ar y cyd llwyddiannus iawn gyda Rhys Williams (39), mab fferm sydd hefyd yn rheolwr yng Ngholeg Glynllifon a bugail ifanc, Emyr Jones, mab teulu amaethyddol yng Ngogledd Cymru.

Daeth Mr Fetherstonhaugh i'r diwydiant amaeth gyntaf yn y saithdegau hwyr, fel tenant Coed Coeth, daliad 960 erw. Cynyddodd fusnes y fferm yn raddol a daeth yn arweinydd gwledig ac yn ffermwr amlwg yng Ngogledd Cymru.

Sylweddolodd Mr Fetherstonhaugh nad oedd y fenter wedi bod yn cyrraedd ei photensial yn y blynyddoedd diwethaf a gwyddai, yn y tymor hwy, ei fod mewn perygl o beidio â chael digon o amser nag egni i newid hynny.

"Roedd y taliadau allan yn uchel. Roedd arnaf angen dau aelod o staff llawn amser, a dau arall i helpu yn ystod y cyfnod wyna maith dan do, yn ogystal â'r seilwaith angenrheidiol, peiriannau a cherbydau sydd arnoch eu hangen i gynnal busnes hyfyw. Roedd yn glir ei bod yn bryd ailfeddwl am y glaswelltir a rheoli stoc," dywedodd Mr. Fetherstonhaugh.

Bu cyfarfod ffodus gyda ffrind oedd yn gwybod y gallai Rhys Williams fod â diddordeb mewn cytundeb cyd-ffermio yn sbardun a arweiniodd yn y pen draw at weld Mr Fetherstonhaugh a Rhys yn gofyn am gymorth gan Cyswllt Ffermio. Maes o law fe wnaethant hefyd gynnwys bugail lleol medrus, Emyr Jones, a oedd wedi gwneud argraff ar Rhys yn ystod ei gyfnod yn fyfyrwr yng Ngholeg Glynllifon. Arweiniodd hyn i gyd at 'gyfle unwaith mewn oes' i'r ddau ffermwr ifanc.

Trwy wneud cais fel grŵp, roedd y tri ffermwr yn gymwys i wneud cais am y pecyn integredig wedi ei ariannu'n llawn o hyfforddiant, mentora, cefnogaeth busnes a chynghor cyfreithiol arbenigol oedd ar gael iddynt trwy raglen Mentro Cyswllt Ffermio.

Dros gyfnod o tua 14 mis, fe wnaethant dderbyn cefnogaeth ac arweiniad gan ddau gynghorydd a gymeradwywyd gan Cyswllt Ffermio. Roedd Wendy Jenkins, cyfarwyddwraig ar yr ymgynghoriaeth wledig, Cara Wales yn gyfrifol am gynhyrchu model busnes newydd a lluniodd y cyfreithwyr amaethyddol arbenigol Agri Advisors y cytundebau cyfreithiol angenrheidiol. Gwerthodd Mr Fetherstonhaugh ei ddiadell Texel ym Medi 2016 a fis yn ddiweddarach, sefydlwyd eu cwmni masnachu.

"Rydym wedi ail stocio gyda 2,300 o famogiaid Romney Seland Newydd sydd ddim angen llawer o waith ac sy'n fwy addas i'r system isel ei chostau, ar laswellt yr ydym yn bwriadu ei defnyddio,"

dywedodd Rhys sydd yn awr yn rheoli'r fenter ac yn ymdrin â'r rôl weinyddol tra bydd Emyr yn gwneud y tasgau bugeilio o ddydd i ddydd.

Daeth y mamogiaid i gyd ag ŵyn allan yn ystod cyfnod o bedair wythnos ym mis Ebrill. Roedd canran ŵyn a'r flwyddyn gyntaf dan y targed cychwynnol ond cred Emyr, trwy fridio yn ddethol, y gellir gwella'r canlyniadau yn y dyfodol.

Mae Mr Fetherstonhaugh wrth ei fod gyda llwyddiant y cwmni cyfyngedig newydd sy'n cael ei ddefnyddio fel strwythur i'r trefniant cyd-ffermio, y mae ganddo ef gyfran o 50% ynddo, mae gan Rhys gyfran o 45% ac Emyr 5%. Mae'r tri cyfranddaliwr yn cyfarfod yn fisol i gael cyfarfod bwrdd gydag agenda wedi ei gosod a lle gwneir penderfyniadau ar y cyd ac mae Rhys yn cyfathrebu yn uniongyrchol gydag Emyr ddwy neu dair gwaith yr wythnos ar y ffôn ac yn rhannu gwybodaeth trwy'r dechnoleg newydd.

"Mae Rhys ac Emyr yn arbennig o wybodus, maent yn gweithio'n galed ac maent yn frwdfrydig iawn am y dyfodol. Rwyf yn falch o fod wedi rhoi help iddynt i ddod i mewn i'r diwydiant. Os aiff popeth yn ôl y cynllun, rwyf yn gobeithio ailadrodd y trefniant cyd-ffermio yma ar barseli eraill o dir, a fydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr."

Dechrau eich taith drwy'r rhaglen Mentro

Os ydych yn meddwl y gallai Mentro fod yn ateb i chi, ond bod angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni i gael sgwrs anffurfiol i drafod eich sefyllfa www.gov.wales/farmingconnect neu cliciwch yma os ydych yn darllen hwn yn electronig.

Neu cysylltwch ag Einir Haf Davies ar 01970 636297 / einir.davies@menterabusnes.co.uk neu cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio Lleol.



FARMING
connect

cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Cysylltwch â ni...

Cyswllt Ffermio

08456 000 813

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

.....
 Facebook.com/FarmingConnect

 Twitter: @FarmingConnect



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government